Beth yw eich barn am ein cynlluniau ar gyfer trin pobl yn gyfartal ac yn deg yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron?

Mae hwn yn fersiwn hawdd ei ddarllen o:
Argymhellion ar gyfer Dogfen Ymgynghori Gyhoeddus Amcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)

Sut i gysylltu â Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)

Ysgrifennu at:

Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y CPS (Amcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth)
Rose Court
2 Southwark Bridge Road
Llundain
SE1 9HS

e-bost:

equality.objectives@cps.gsi.gov.uk

Ffôn:

020 3357 0552

Ffacs

020 3357 0567

Beth sydd yn y dudalen bapur hon

Gwybodaeth am y papur hwn 1

Beth mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn ei wneud? 3

Sut mae'r CPS yn gweithio 4

Deddf Cydraddoldeb 2010 6

Beth mae'r CPS yn ei wneud i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg 10

Beth allwch chi ei wneud 12

Pethau rydym am eu gwneud 13

Gwybodaeth am y papur hwn

Mae'r papur hwn yn gofyn beth yw eich barn am ein cynlluniau ar gyfer trin pobl yn gyfartal ac yn deg yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron (CPS).



Ar ddiwedd y papur hwn, byddwn yn gofyn rhai cwestiynau i chi.

Hoffem wybod beth yw eich barn erbyn **dydd Llun, 5 Rhagfyr, 2011**.

Efallai y byddwn yn dweud wrth bobl eraill am eich atebion oni bai eich bod yn ysgrifennu arnynt eu bod yn breifat.

Gallwch e-bostio eich sylwadau at:

equality.objectives@cps.gsi.gov.uk

Gallwch deipio eich atebion ar ein gwefan:

www.tinyurl.com/CPSconsult

Gallwch ysgrifennu eich atebion yn y blychau a'u postio at:

Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y CPS
(Amcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth)
Rose Court
2 Southwark Bridge Road
Llundain
SE1 9HS

Os hoffech chi ddarllen hwn mewn print bras, anfonwch e-bost at:

equality.objectives@cps.gsi.gov.uk

neu ffoniwch:

020 3357 0552

neu ffacsiwch

020 3357 0567.

Beth mae'r CPS yn ei wneud?

Rydym yn helpu ac yn gweithio gyda'r heddlu i ganfod beth oedd wedi digwydd pan fyddant yn dechrau edrych ar drosedd.

Rydym yn penderfynu pa gyhuddiadau y dylai pobl yn yr achosion mwy difrifol eu hwynebu yn y llys.

Rydym yn cadw golwg ar achosion ac yn penderfynu pa rai ddylai fynd i'r llys.

Rydym yn helpu i gael yr wybodaeth gywir ar gyfer achosion i fynd i'r llys ac yn defnyddio ein cyfreithwyr ein hunain neu rai eraill.

Rydym yn rhoi gwybodaeth a chymorth i bobl sy'n cael eu brifo neu eu gofidio gan drosedd.

Rydym yn rhoi gwybodaeth a chymorth i bobl sy'n gorfod mynd i'r llys i siarad am yr hyn y maent wedi'i weld neu beth sydd wedi digwydd iddynt.

Sut mae'r CPS yn gweithio

Ein pennaeth yw'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.

Mae gan y CPS swyddfeydd mewn 13 o ardaloedd gwahanol ar draws Cymru a Lloegr.

Mae gennym bron i 8,500 o staff.

Y llynedd, aeth bron i 1 miliwn o bobl i'r llys oherwydd eu bod wedi torri'r gyfraith.

Os ydych am wybod mwy amdanom ni, gallwch edrych ar-lein yn:

www.cps.gov.uk

neu gallwch ysgrifennu at:

Uned Gohebiaeth
Gwasanaeth Erlyn y Goron Uned
Rose Court
2 Southwark Bridge
Llundain
SE1 9HS

neu gallwch ffonio:

020 3357 0899

neu gallwch e-bostio:

enquiries@cps.gsi.gov.uk

Deddf Cydraddoldeb 2010

Weithiau, mae pobl yn cael eu trin yn wahanol oherwydd pethau fel:

- **hil:** y wlad neu'r diwylliant y deuwch ohoni/ohono



- **rhyw:** os ydych yn ddyn neu'n fenyw

- **oed:** os ydych yn ifanc neu'n hen

- **cyfeiriadedd rhywiol**: os ydych yn syth, hoyw, lesbiad neu ddeurywiol

- **trawsrywiol:** pobl sy'n cael eu geni fel un rhyw ac am fyw fel y rhyw arall

- **anabledd:** os oes gennych chi broblem symud, nam ar y golwg, nam ar y clyw, problemau iechyd meddwl neu anhawster dysgu

- **bod yn feichiog**

- **statws priodasol:** os ydych yn briod neu mewn Partneriaeth Sifil.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dweud bod yn rhaid i'r llywodraeth, cynghorau a grwpiau eraill megis y CPS, wneud yn siŵr:

- bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg ac nad oes unrhyw un yn cael ei fwlio

- y dylai pawb gael yr un cyfleoedd i wneud pethau

- bod grwpiau o bobl yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Rydym wedi gwneud cynlluniau i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi bob blwyddyn pa mor dda rydym yn meddwl ein bod yn gwneud.

Bydd ein gwybodaeth yn hawdd i bawb ei deall. Byddwn yn sicrhau bod gennym ddigon o arian ar gyfer hyn.

Byddwn yn cynnwys y bobl sy'n gweithio i ni a phobl eraill yr ydym yn gweithio gyda nhw a allai weithiau fod wedi cael eu trin yn annheg.

Beth mae'r CPS yn ei wneud i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg

Mae gennym reolau i ddweud wrthym sut i weithio. Mae'r rheolau hyn yn dweud bod rhaid i ni fod yn deg i bawb. Mae'n bwysig i ni a dyma hefyd yw'r peth iawn i'w wneud.

Rydym yn gwybod fod pawb yn wahanol a bod ar rai pobl angen gwahanol fathau o gymorth i gael yr un cyfleoedd â phobl eraill.

Byddwn yn gweld beth fydd effaith ein gwaith ar grwpiau o bobl.

Rydym yn cynnwys llawer o wahanol bobl pan fyddwn yn penderfynu sut mae pethau'n mynd i weithio. Pan fyddwn yn gwrando arnoch chi, gallwn gael pethau'n iawn i chi.

Os ydych eisiau gwybod mwy am yr hyn yr ydym yn ei wneud ynghylch trin pobl yn gyfartal ac yn deg, gallwch edrych ar y dudalen hon ar ein gwefan:

www.tinyurl.com/CPSequality

Os ydych chi eisiau gwybod sut rydym yn gweithio gyda throseddwyr, gallwch edrych ar y dudalen hon ar ein gwefan:

www.tinyurl.com/CPSprosecution

Yr hyn y gallwch chi ei wneud

Rydym wedi ysgrifennu rhestr o'r prif bethau y mae arnom eisiau eu gwneud i sicrhau bod pawb rydym yn eu cyfarfod yn cael eu trin yn deg ac yn cael yr un cyfleoedd.

Mae'r cyhoedd a rhai o'n staff wedi helpu i'w hysgrifennu.

Rydym eisiau gwybod beth yw eich barn am y pethau yr ydym am eu gwneud ac mae gennym rai cwestiynau i chi.

Gallwch bostio neu e-bostio eich atebion atom. Neu gallwch fynd i'n gwefan i ateb y cwestiynau.

Mae manylion am sut i wneud hyn ar dudalen 1 a thudalen 2.

Pethau rydym am eu gwneud

Dyma ein cynlluniau i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg. Hoffem wybod beth yw eich barn.

Cynllun 1- Gwneud yn siŵr ein bod yn bodloni cyfraith cydraddoldeb

Byddwn yn meddwl am sut rydym yn trin pawb yn gyfartal ac yn deg ym mhopeth a wnawn ac mewn unrhyw reolau y byddwn yn eu hysgrifennu.

Mae hyn yn golygu'r cyhoedd, pobl sy'n mynd i'r llys a'n staff ni.

Byddwn yn edrych ar ein rheolau a'r pethau a wnawn i weld a ydynt yn deg i bawb.

Byddwn yn hyfforddi ein staff i wneud hyn yn dda.

Byddwn yn dweud wrth bobl am hyn ar ein gwefan.

Byddwn yn dweud wrth bobl am yr hyn yr ydym yn ei wneud ac yn gofyn iddynt am eu barn.

Byddwn yn sicrhau bod ein gwybodaeth yn hawdd ei deall i bawb a byddwn yn dweud wrthych sut yr ydym yn mynd i wneud hyn.

Rydym am i bobl ein helpu ni i gynllunio a phenderfynu a ydym yn gwneud yn dda.

Mae gennym grwpiau i ystyried ein bod yn trin pobl yn gyfartal ac yn deg.

Mae'r bobl yn y grŵp yn dod o blith y cyhoedd ac o blith ein staff.

Byddwn yn edrych ar y pethau y mae'r Llywodraeth a sefydliadau megis elusennau mawr yn ei ddweud am drin pobl yn deg a byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn gwrando arnynt.

Byddwn yn hyfforddi ein staff i wneud yn siŵr eu bod yn trin pobl yn gyfartal ac yn deg a byddwn yn ystyried pa mor dda y mae hyn yn gweithio.

Byddwn yn helpu ein staff i ddeall mwy am bobl sy'n **Drawsrywiol.**

Byddwn yn edrych ar sut rydym yn cefnogi pobl o grwpiau sy'n aml yn cael eu trin yn annheg yn y llys i weld a allwn ni eu cefnogi yn well.

Cwestiwn 1

A ydych chi'n cytuno â'r hyn yr ydym yn dymuno ei wneud? Ysgrifennwch eich ateb yn y llyfryn atebion.

Cynllun 2- Gwella wrth drin troseddau casineb a throseddau yn erbyn menywod

Byddwn yn gwella wrth ddelio â phobl sy'n torri'r gyfraith am droseddau casineb, troseddau yn erbyn pobl hŷn a throseddau yn erbyn menywod.

Byddwn hefyd yn gwella o ran cefnogi'r bobl y gallai'r troseddau hyn fod yn eu brifo neu eu gofidio.

Byddwn yn helpu ein staff i ddeall mwy am y troseddau hyn.

Mae grŵp o bobl yn ysgrifennu adroddiad am bobl sy'n cael eu bwlio oherwydd bod ganddynt anabledd.

Byddwn yn gwrando ar yr hyn y maent yn ei ddweud ac yn gwneud newidiadau i wneud pethau'n well.

Byddwn yn edrych ar sut rydym yn gweithio gyda'r heddlu gyda throseddau casineb a thrais yn erbyn menywod.

Byddwn yn helpu ein staff i ddeall sut i gyfathrebu gyda phobl sydd ag anghenion gwahanol.

Rydym yn edrych ar sut yr ydym yn rhoi cymorth ychwanegol i'r bobl sydd angen mwy o gymorth nag eraill pan fydd yn rhaid iddyn nhw fynd i'r llys i siarad am yr hyn maent wedi'i weld neu beth sydd wedi digwydd iddynt.

Byddwn yn cynnwys y cyhoedd yn y pethau rydym yn ei wneud.

Cwestiwn 2

A ydych yn cytuno â'r hyn yr ydym yn dymuno ei wneud? Ysgrifennwch eich ateb yn y llyfryn atebion.

Cynllun 3 - Casglu gwybodaeth a'i gwneud yn hysbys i bobl

Byddwn yn edrych ar ffeithiau a gwybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud i sicrhau bod y cyhoedd a'n staff yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg gan y CPS.

Byddwn yn gwneud yn siŵr y gall pobl weld yr wybodaeth hon fel eu bod yn gwybod beth rydym yn ei wneud.

Byddwn yn gwneud yr wybodaeth yn hawdd i bawb ei deall.

Byddwn yn edrych ar yr wybodaeth er mwyn gweld beth allwn ni ei wneud yn wahanol.

Byddwn yn gwella o ran cael yr wybodaeth.

Cwestiwn 3

Ydych chi'n cytuno â'r hyn yr ydym yn dymuno ei wneud? Ysgrifennwch eich ateb yn y llyfryn atebion.

Cynllun 4- Trin ein staff yn deg

Byddwn yn parhau i gasglu gwybodaeth am staffio er mwyn sicrhau ein bod yn bod yn deg.

Byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn talu ein staff yn deg.

Byddwn yn gwrando ar yr hyn y mae ein staff yn ei ddweud wrthym am sut brofiad yw gweithio i'r CPS.

Byddwn yn ystyried yr hyn y mae pobl nad ydynt yn gweithio i'r CPS wedi'i ddweud am wella tegwch yn y CPS.

Byddwn yn helpu staff i ddeall mwy am bobl sy'n Drawsrywiol.

Byddwn yn edrych ar ein systemau cyfrifiadurol i weld a ydynt yn hawdd i staff eu defnyddio.

Byddwn yn canfod pam nad oes mwy o staff du ac o leiafrifoedd ethnig yn cael dod yn **Eiriolwyr Llys Uwch.**

Byddwn yn rhoi mwy o wybodaeth i staff am barchu pobl yn y gwaith.

Byddwn yn mesur pa mor dda yr ydym yn ei wneud o ran rheoli ein staff yn deg.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn ymdrin â'r mater yn gyflym pan fydd staff yn gofyn am newidiadau i'w gwaith oherwydd anabledd.

Byddwn yn hyfforddi staff i ddysgu mwy am drin pawb a bod yn deg iddynt a pharchu gwahaniaeth.

Cwestiwn 4

Ydych chi'n cytuno â'r hyn yr ydym yn dymuno ei wneud? Ysgrifennwch eich ateb yn y llyfryn atebion.

Beth mae rhai o'r geiriau yn ei olygu

Oedran	Os ydych yn ifanc neu'n hen
Cyhuddiadau	Pan fydd yr heddlu / CPS yn dweud bod rhywun wedi cyflawni trosedd.
Llys	Y man lle mae problemau cyfreithiol neu droseddau yn cael eu trin.
Troseddu	Pan fydd rhywun yn torri'r gyfraith.
Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)	Y sefydliad sy'n delio ag achosion troseddol ar ôl i'r heddlu arestio rhywun ac yn ystod y treial.
Anabledd	Os oes gennych chi broblem symud, nam ar y golwg, nam ar y clyw, problemau iechyd meddwl neu anhawster dysgu.
Deddf Cydraddoldeb 2010	Cyfraith sy'n dweud sut y mae'n rhaid i ni drin pobl yn gyfartal ac yn deg.
Rhyw	Os ydych yn ddyn neu'n fenyw.
Eiriolwyr Llys Uwch	Staff y CPS sy'n delio ag achosion yn y llys.
Cyfreithiwr	Rhywun sy'n helpu pobl gyda'r gyfraith ac yn siarad ar eu rhan yn y llys.
Statws priodasol	Os ydych yn sengl, yn briod neu mewn Partneriaeth Sifil.

Beth mae rhai o'r geiriau yn ei olygu

Erlynwyd	Wedi profi bod rhywun wedi cyflawni trosedd.
Erlyniad	Ceisio profi bod rhywun wedi cyflawni trosedd.
Hil	Y wlad neu'r diwylliant yr ydych yn dod ohoni/ohono.
Cyfeiriadedd rhywiol	Os ydych yn hoyw, lesbiad neu ddeurywiol.
Trawsrywiol	Pobl sy'n cael eu geni fel un rhyw ac am fyw fel y rhyw arall.

Made with
PHOTO
SYMBOLS
3
®